


# LLYTHYR YR ESGOB HAF 2017

## BISHOP'S LETTER SUMMER 2017



NID OES DIM BYD TEBYG I EGLWYS LEOL  
SY'N GWEITHIO'N IAWN. MAE EI  
HARDDWCH YN ANNISGRIFIADWY.  
MAE EI GRYM YN SYFRDANOL. MAE EI  
PHOTENSIAL YN ANGHYFYNGEDIG.

Bill Hybels yn ei lyfr, *Courageous Leadership* (2002)

THERE IS NOTHING LIKE THE LOCAL  
CHURCH WHEN IT'S WORKING RIGHT.  
ITS BEAUTY IS INDESCRIBABLE. ITS  
POWER IS BREATHTAKING. ITS  
POTENTIAL IS UNLIMITED.

Bill Hybels in his book, *Courageous Leadership* (2002)



Esgobaeth  
Bangor  
The Diocese  
of Bangor

| Yr Eglwys yng Nghymru  
The Church in Wales

## Annwyl gyfeillion

### GRAS A THANGNEFEDD I CHI.

Dyma fy ail lythyr yn trafod rhai o'r materion esgobaethol a thaleithiol sy'n effeithio ar ein bywyd ynghyd, er mwyn sicrhau bod ein hamryfai gymunedau eglwysig yn cael clywed am bopeth sy'n cynnig cyfeiriad ac adnoddau ar gyfer ein haddoli a'n dystio.

Un o'r tasgau mawr sydd o'n blaenau yw efengylu, sydd, miwn, yn air heriol – a bygythiol i rai pobl. Efallai fod y term yn ein hatgoffa o'r pregethwyr stryd gyda'u placardiau a welwn weithiau'n ceisio perswadio pobl bod ffydd yn beth da. Mae ffydd yn beth da, wrth gwrs, ond mater o farn yw ai dyna'r ffordd orau o'i hyrwyddo. Mae anogaeth gref i efengylu yn yr Ysgrythurau Sanctaidd. Meddai Sant Paul, wrth annerch Cristnogion Corinth, 'Gwae fi os na phregethaf yr Efengyl' (1 Corinthiaid 9:16). Yn ogystal, terfyn gweinidogaeth ddaearol Iesu ei hun oedd ei gomisiwn mawr i fynd i'r holl fyd a chyhoeddi'r ffydd, gan wneud disgyblion o bawb ym mhobman (Mathew 28).

Nid ydym wedi arfer â gweithredu fel hynny yn traddodiad Anglicanaidd! Gall hi fod yn anodd i ni 'ddweud ein stori' a rhannu ffydd sydd, er hynny, yn bwysig i ni ac wedi gwreiddio yn ein calonnau. Dywedodd cydweithiwr yn ddiweddar nad ydym wedi arfer â myfyrio yngylch ystyr y stori Gristnogol i ni, heb sôn am feddwl sut i rannu'r stori honno ag eraill. Ar yr ymweliad esgobaethol ag Uganda yn 2014, cofiaf yn dda mor rhwydd y siaradai Cristnogion yno yngylch eu ffydd yng Nghrist, a hynny mewn ffordd onest a brwd frydig. Yr her i ni yw dysgu sut i 'ddweud ein stori' yn ein hiaith a'n cyd-destun ninnau.

Hoffwn amlinellu'r meysydd lle mae angen i ni gamu ymlaen gyda'r gwaith hwn.

## Dear friends

### ALL GRACE AND PEACE TO YOU.

This is my second letter highlighting some of the diocesan and provincial matters that have an impact of our common life, to ensure we can, in our many church communities, hear about all that is directing and resourcing our worship and witness.

One of the great tasks before us is that of evangelism, which I know is a challenging (and, for some, a threatening) word. It may remind us of the placard-carrying street preachers whom we sometimes see trying to persuade people that faith is a good thing – which it is, of course, although whether that is the best way to commend faith is debatable. Evangelism is commended strongly to us in the Holy Scriptures. St Paul, addressing the Corinthian Christians, said 'Woe to me if I do not preach the Gospel' (1 Corinthians 9:16) and Jesus himself concluded his earthly ministry with a great commission to go everywhere and proclaim the faith, making disciples of all people (Matthew 28).

We are not used to this kind of approach in the Anglican tradition! We may not find it easy to 'tell our story' and share a faith which is nonetheless deeply personal and important to us. A colleague recently remarked that we are not used to reflecting on what the Christian story means to us, let alone thinking about how to share it with others. On the diocesan visit to Uganda in 2014, I well remember the ease with which Christians there spoke of their faith in Christ with enthusiasm and realism. The challenge to us is learning how to 'tell our story' in our own language and context.

I would like to outline where I think we need to make progress in this area.

**GWAE FI OS NA PHREGETHAF  
YR EFENGYL!**  
**(1 CORINTHIAID 9:16)**

**WOE TO ME IF I DO NOT PREACH  
THE GOSPEL!**  
**(1 CORINTHIANS 9:16)**

## **1** YN GYNTAF, MAE ANGEN CYFLEOEDD A LLEOEDD YM MHOB ARDAL WEINIDOGAETH LLE GALLWN RANNU STORI EIN FFYDD.

Mae'n annhebyg mai ein cynulliadau ffurfiol i addoli ar y Sul fydd y lleoedd hynny. Yn hytrach, gan adeiladu ar y syniad o ddod ynghyd mewn grwpiau trafod yn ystod tymhorau'r Grawys a'r Adfent, gallwn ddefnyddio dulliau tebyg i ystyried yr hyn mae ein ffydd yn ei olygu i ninnau a sut mae dechrau rhannu'r ffydd honno ag eraill. Mae angen i ni feddwl hefyd lle orau i wneud hynny, gan greu 'manna u meithrin' lle gall pobl sydd ar gyrrion bywyd yr Eglwys, neu nad ydynt wedi dod i gysylltiad â'r bywyd hwnnw o gwbl o'r blaen, gan fod man cychwyn i archwilio'r ffydd Gristnogol. Gallai hynny

olygu dilyn un o'r cyrsiau sy'n bodoli eisoes, megis y Cwrs Alffa, neu gallai fod yn rhywbeth llawer mwy anffurfiol sy'n cael ei gynnal mewn caffi, bar coffi neu dafarn leol! Yn fy mhrofiaid innau, yr hyn sy'n llesteirio mentrau o'r fath yw nid amharodrwydd pobl i ddod ond amharodrwydd eglwysi i arbrofi gyda rhywbeth gwahanol. Mae'n gyfle i fod yn greadigol a hyd yn oed i fentro tipyn – felly sut fyddai cyfarfodydd a 'manna u meithrin' o'r fath yn edrych yn eich Ardal Weinidogaeth chi?

## **2** YR AIL FFORDD Y GALLWN GAMU YMLAEN GYDA RHANNU'R FFYDD YW DRWY BARHAU I WEDDIO DROS BOBL.

Deilliodd menter wych 'Deled dy Deyrnas' ([www.thykingdomcome.global](http://www.thykingdomcome.global)) o gytundeb rhwng Archesgobion Caergaint a Westminster i gynnal rhannu storï'n ffydd drwy ymrwymo i weddio. Mae'n bwysig cofio, fod bynnag, nad dim ond gwahoddiad cyffredinol i weddio sydd yma, gan fy mod yn cymryd ein bod wedi ymrwymo i wneud hynny'n barod! Yn hytrach, mae'n ymrwymiad penodol i weddio y bydd pobl yn profi cariad

Duw yng Nghrist. Mae menter o'r fath yn ffordd ragorol o'n hatgoffa nad geiriau doeth na chyflwyniadau slic (er cystal y gall y rheini fod) sy'n ennyn ffydd. Mae ffydd yn blaguro pan fydd Duw yn cynorthwyo pobl i bontio rhwng yr hyn a ddywedir a'u bywydau hwythau. Dyna pryd maen nhw'n ei 'gweld hi', fel petai. Sut allai gweddio fel hynny wreiddio yn eich Ardal Weinidogaeth chi?

## **1** FIRSTLY, WE NEED OPPORTUNITIES AND PLACES IN EVERY MINISTRY AREA WHERE OUR FAITH STORY CAN BE SHARED.

It is unlikely to be our formal gatherings for Sunday worship. Instead, building on the idea of gathering for Lent and Advent discussion groups, we can use the same approach to explore what our faith means to us and how we might begin sharing it with others. We also need to think about where this best happens, fixing upon 'places of nurture' where those on the fringes of Church life or perhaps wholly new to it can find a way in to exploring the Christian faith. This might involve one of the existing courses such as Alpha or it might be something much

more informal, held in a local café, tea room or tavern! In my experience, what often inhibits such initiatives is not the reluctance of people to come but the reluctance of churches to try something different. It's an opportunity to be creative and even take a few risks – so what would such gatherings and such 'places of nurture' look like in your Ministry Area?

## **2** THE SECOND WAY IN WHICH WE CAN PROGRESS IN FAITH-SHARING IS THAT WE CAN CONTINUE TO PRAY FOR PEOPLE.

The excellent 'Thy Kingdom Come' initiative ([www.thykingdomcome.global](http://www.thykingdomcome.global)) began with an agreement between the Archbishops of Canterbury and Westminster to underpin our faith story with a commitment to prayer. Note, though, that this commitment is not just a general invitation to prayer, because I assume we are committed to that already! It is a specific commitment to pray for people to experience the love of God in Christ. Such an initiative is an

excellent way of reminding us that faith is born neither through wise words nor slick presentations (although both of these can be good). Faith is born when God helps people make connections between what is being said and their own lives. That is when the 'penny drops', as the saying goes. How can this kind of praying spread in your Ministry Area?

### **3 YN DRYDYDD, MAE ANGEN I NI RYDDHAU POBL I FOD YN ARLOESWYR YN HOLL FAES EFENGYLU, GAN RANNU ENGHREIFFTIAU YSBRYDOLEDIG SY’N DANGOS I NI BETH SY’N BOSIBL.**

Mae hi wedi bod yn faint ac yn llawenydd i mi gael clywed am gynulliadau newydd yn yr esgobaeth hon sy’n ymddangos eu bod yn ‘flagur eglwysi’. Y gwir yw, os na welwn eglwysi newydd yn blodeuo yn ein plith, dim ond crebachu pellach sydd o’n blaenau. Nid yr hyn a elwir weithiau’n ‘eglwys etifeddol’ (sef y cynulliadau traddodiadol ar y Sul) a ddylai fod yr unig ffurf ar yr Eglwys mewn cyfnod mor gyfoethog amrywiol â heddiw. Creodd y Dr

Rowan Williams y term ‘economi gymsg’ yr Eglwys, i gyfeirio at y ffordd mae cymunedau eglwysig o lawer o fathau gwahanol oll yn ffynnu o fewn y teulu Anglicanaidd. Credaf mai dyna’r union ffordd y dylem fod yn meddwl wrth ystyried sut i gyrraedd pobl nad ydynt yn ei chael yn hawdd, am ba reswm bynnag, i groesi trothwy adeilad eglwysig. Ym mha ffyrdd y gallai pobl felly glywed newyddion da Crist yn eich Ardal Weinidogaeth chi?

### **3 THIRDLY, WE NEED TO RELEASE PEOPLE TO PIONEER IN THIS WHOLE AREA OF EVANGELISM, AND TO CELEBRATE EXAMPLES THAT SHOW US WHAT IS POSSIBLE.**

I have found it a privilege and a joy to hear of new gatherings in this diocese with the appearance of being ‘churches in infancy’. The reality we face is that, unless we see new churches flourishing in our midst, we will face further decline. What is sometimes called ‘inherited church’ (the traditional Sunday gatherings) should not be the only way of being Church in an age of rich diversity. Dr

Rowan Williams coined the phrase ‘a mixed economy’ of Church, by which he meant different types of church communities all flourishing within the Anglican family. I think this is exactly the right approach for thinking about how to connect with those who, for whatever reason, do not find it easy to cross the threshold of a church building. What are the ways in which such people might hear the good news of Christ in your Ministry Area?

**Hoffwn nodi’n olaf y pwynt pwysicaf oll. Yr un rhodd fwyaf sydd gennym i’w chynnig i eraill yw bywyd dedwydd a dilys Duw ynom, yn y dyddiau da a’r dyddiau anodd. Nid techneg nac ymgyrch i berswadio yw efengylu. Mae’n golygu ffordd o fyw lle byddwn yn rhannu’n ffyddlon a llawen stori’r hyn y mae Crist yn ei olygu i ni.**

**Dymunaf i chi’r llawenydd a’r tangnreffed sy’n eiddo i ni yng Nghrist wrth i ni ledaenu’r newyddion da yn ein cymunedau ac ymhlieth ein cymdogion.**

**I would like to end with the most important point of all. The single greatest gift we have to offer is the joyful and authentic life of God within us, in good times and in difficult times. Evangelism is neither a technique nor a campaign of persuasion. It is a way of life in which we faithfully and joyfully tell the story of what Christ means to us.**

**May I wish you that joy and peace which is ours in Christ as we share the good news with our communities and neighbours.**



**Y Gwir Barchg Andy John  
Esgob Bangor  
The Rt Revd Andy John  
Bishop of Bangor**